Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 14 Gorffennaf 2022

Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau gan Uned Gwyddorau Cymdeithasol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Aberystwyth.

Darllenwch fanylion yr agenda a'r papurau cyhoeddedig.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau hyn, neu yng ngwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn gyffredinol, ddod i'r cyfarfod i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Lleoliad

Bydd y cyfarfod hybrid hwn yn cael ei gynnal yn Swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, T? Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW, ac ar-lein trwy Microsoft Teams.

Os ydych yn bwriadu cymryd rhan wyneb yn wyneb, bydd modd cofrestru a chael paned o 09:40 ymlaen cyn i'r cyfarfod ddechrau'n brydlon am 09:55.

Cadw lle

I gadw lle, neu i gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at walesadminteam@food.gov.uk